Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 749A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys Mike Jones, Jackie Joyce, Stephen Lisle, Mandy Townsend, Derwyn Owen a David Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 8 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 9 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, cyflwynais adroddiad sylweddol ar y broses ariannu a'r pwysau ariannol y mae'r Bwrdd yn ei wynebu ochr yn ochr â'm barn archwilio | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 13 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar gyfer rheoli'r gyllideb, ac ar gyfer monitro ac adrodd yn ystod y flwyddyn. Mae cyfeiriad y Bwrdd o ran trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn gadarnhaol, ond mae'r Bwrdd ar ei hôl hi o ran cyflawni arbedion, ac er mwyn llwyddo yn y dyfodol bydd angen mwy o gefnogaeth gan randdeiliaid allweddol | 13 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu ac yn cydnabod bod meysydd i'w datblygu ymhellach | 15 |
| Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau yn bodloni anghenion gweithredol arferol ar y cyfan. Serch hynny, mae angen gwella mwy ar ysgogiadau allweddol er mwyn cefnogi cyflawni'r cynllun tymor canolig integredig | 20 |
| Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes penodol | 21 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 23 |
| Ffi archwilio | 24 |
| Risgiau archwilio sylweddol | 25 |

# Adroddiad cryno

1. Rhydd yr adroddiad hwn grynodeb o'm canfyddiadau o'r gwaith archwilio a gwblhawyd gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Yn fy ngwaith archwilio, canolbwyntiais ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 19 Ionawr 2015.
Bydd wedyn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod dilynol o'r Bwrdd, gan ddarparu copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14, er i mi ddwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd a wnelo'r rhain â:
   a. dau gamddatganiad dibwys heb eu cywiro: gwall o £401,000 wrth ddosbarthu gwariant, a gorddatgan £2.18 miliwn ar gyfer costau lleihad. Nid oedd y naill na'r llall yn effeithio ar y tanwariant a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn;
   b. nid oedd modd gwirio'r adroddiad ar berfformiad o ran Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus o dalu 96.9 y cant o anfonebau o'r tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod ar ôl eu derbyn, gan fod y Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' wrth i'r Adran Gyllid dderbyn yr anfoneb, yn hytrach nag wrth i'r Bwrdd Iechyd dderbyn yr anfoneb i ddechrau; ac
   c. ansicrwydd dibwys gwerth £1.3 miliwn yn gysylltiedig ag anghydfod ynghylch balansau rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Cymru a darparwyr gofal iechyd yn Lloegr.
7. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Roedd fy adroddiad yn tynnu sylw at £3.9 miliwn ar froceriaeth gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf er mwyn galluogi'r Bwrdd i aros oddi mewn i'w Derfyn Adnodd Refeniw ar gyfer y flwyddyn. Cafodd cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd o 2014-15 i 2016-17 ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar 7 Mai 2014. Yn ôl y Cynllun, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2014-15.

**8.** Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:

- bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- bod gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad.

**9.** Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Yn fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, archwiliais gadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran rheoli ansawdd a'r trefniadau ar gyfer mesur a gwella profiad y claf/defnyddiwr. Mae adolygiadau archwilio perfformiad hefyd wedi cael eu cynnal ar feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar gyfer rheoli'r gyllideb, ac ar gyfer monitro ac adrodd yn ystod y flwyddyn. Mae cyfeiriad y Bwrdd o ran trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn gadarnhaol, ond mae'r Bwrdd ar ei hôl hi o ran cyflawni arbedion, ac er mwyn llwyddo yn y dyfodol bydd angen mwy o gefnogaeth gan randdeiliaid allweddol.

**11.** Ar y cyfan, bu'r Bwrdd Iechyd yn lled lwyddiannus wrth reoli ei gyllid yn 2013-14. Arhosodd o fewn ei Derfyn Adnoddau Refeniw, ond roedd arno angen £3.9 miliwn dan froceriaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny, gan nad oedd wedi sicrhau'r holl arbedion a gynlluniwyd ganddo.

**12.** Mae'r monitro a'r adrodd yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn gryf yn 2014-15, ond unwaith eto mae'r Bwrdd Iechyd ar ei hôl hi o ran ei gynlluniau i sicrhau arbedion ac effeithlonni, ac nid oedd holl gynlluniau arbed y cyfarwyddiaethau wedi'u cymeradwyo yn brydlon. Bydd ymgysylltu ynghynt a chefnogaeth y cyfarwyddiaethau a'r staff clinigol yn allweddol er mwyn llwyddo yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu ac yn cydnabod bod meysydd i'w datblygu ymhellach.

**13.** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd cymeradwy sy'n dwyn y teitl 'Gofal Cwm Taf' ac mae ei drefniadau cynllunio wedi parhau i aeddfedu yn ystod 2014 ac yn cael eu cryfhau ymhellach ar gyfer 2015. Mae ganddo drefniadau ar waith i fonitro cyflawni'r cynllun ac mae atebolrwydd clir wedi'i bennu ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol.

**14.** Mae'r broses gyffredinol ar gyfer cynhyrchu cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau a strategaethau arbed, ar draws y cyfarwyddiaethau ac ar gyfer cyfarwyddiaethau penodol, yn ymddangos yn gadarn, gyda rhai meysydd lle ceir arfer da. Fodd bynnag, ni chafodd pob cynllun cyfarwyddiaeth ei gwblhau mewn modd amserol, ac fe gytunwyd ar rai cynlluniau cyfarwyddiaeth yn amodol ar gymeradwyo sawl ffactor, megis cymeradwyo swyddi ychwanegol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu i gymeradwyo cynlluniau busnes yr holl gyfarwyddiaethau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16.

**15.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adnewyddu ei gynllun integredig tair blynedd ac wedi mabwysiadu dull rhagweithiol er mwyn datblygu ei fframwaith lleol cyn dyfodiad Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015-16. Mae trefniadau cefnogi eraill hefyd yn cael eu cryfhau, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad a'r modd y caiff swyddogion AD a chyllid eu dyrannu i'r cyfarwyddiaethau.

**16.** Ar y cyfan, mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i esblygu, ond mae angen gwella rhai trefniadau ymhellach. Mae gweinyddiaeth y Bwrdd yn gwella, a dylai mwy o gapasiti corfforaethol gryfhau'r trefniadau ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroi i adolygu a cheisio cryfhau ei drefniadau sicrwydd.

**17.** Nodwyd yn arsylwadau fy nhîm fod cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio'n dda, bod Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi cefnogaeth dda a bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn awyrgylch agored. Wrth arsylwi cyfarfodydd pwyllgor eraill, canfu fy nhîm fod lefel y craffu a'r herio yn briodol ar y cyfan. Mae ansawdd yr adroddiadau pwyllgor yn rhesymol a bu rhywfaint o welliant yn hyn o beth, ond mae angen gwneud mwy i ddangos yr effaith ar berfformiad, ansawdd a chyllid, a symud tuag at ffordd o adrodd sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

**18.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr amgylchedd allanol newidiol ac yn addasu strwythur ei bwyllgorau yn unol â hynny. Mae cylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau wedi cael eu hadolygu, neu yn cael eu hadolygu, yn rhan o'r adolygiad cyffredinol o strwythurau llywodraethu. Mae'r rhan fwyaf o'r cylchoedd gorchwyl yn cynnwys gofyniad i gynnal hunanasesiad a gwerthusiad rheolaidd a thrwyadl o berfformiad a gweithrediad y pwyllgor bob blwyddyn. Er gwaethaf y gofyniad i gynnal hunanasesiad, dim ond un pwyllgor a oedd wedi mynd ati i wneud hynny yn 2014.

**19.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwelliannau i strwythur a phroses y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac wedi llunio Strategaeth Ansawdd a chynllun cyflawni cysylltiedig, yn ogystal â Chynllun Profiad y Claf.

**20.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer rheolaeth fewnol, ond gellid gwella rhai trefniadau, yn enwedig o ran dogfennu rhoddion a lletygarwch, a hefyd o ran atal a chanfod twyll mewn gofal sylfaenol.

**21.** Mae trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i ddatblygu, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau wrth fodloni targedau perfformiad allweddol. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd perfformiad integredig sy'n datblygu, yr adroddir amdano'n rheolaidd. Gallai gwelliannau pellach gynnwys trafod perfformiad yn erbyn rhaglenni trefniadol allweddol a monitro yn erbyn cerrig milltir allweddol yn y cynllun tymor canolig integredig.

**22.** Ceir arwyddion o welliant mewn perfformiad mewn rhai meysydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda â rhai Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, o edrych ar y

darlun cyffredinol, mae angen gwneud mwy i wella perfformiad yn erbyn rhai targedau cenedlaethol allweddol.

**23.** Yn fy ngwaith yn 2013, tynnwyd sylw at yr angen i gryfhau rhai agweddau ar sicrwydd a rheolaeth fewnol y bwrdd, casglu adborth a dysgu yn ei sgil, a rheoli diogelwch ac ansawdd. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau olrhain argymhellion archwilio mewnol, ac wedi cytuno hefyd i olrhain argymhellion archwilio allanol. Er nad oes ganddo broses systematig ar waith i fonitro ac olrhain, canfûm yn fy adolygiadau fod y Bwrdd wedi gwneud cynnydd cyson ar lawer o argymhellion y llynedd. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau pellach yn gysylltiedig â rhai o'r rhain, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd olrhain ei gynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewn modd mwy systematig.

## Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau yn bodloni anghenion gweithredol arferol ar y cyfan. Serch hynny, mae angen gwella mwy ar ysgogiadau allweddol er mwyn cefnogi cyflawni'r cynllun tymor canolig integredig

**24.** Ar y cyfan, mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau yn bodloni anghenion gweithredol arferol, a bu rhai gwelliannau yn y trefniadau ar gyfer rheoli newid a chynllunio'r gweithlu. Mae angen gwella ffactorau galluogi allweddol ymhellach er mwy cefnogi cyflawni'r cynllun tymor canolig integredig. Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau mewn perthynas â ffactorau galluogi, gan gynnwys rheoli newid, cynllunio'r gweithlu, ystadau ac asedau, gwaith partneriaeth, ymgysylltu â chleifion a dinasyddion, a'r defnydd o dechnoleg, ac adroddir ar y meysydd hyn yn hwyrach yn 2015.

## Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes penodol.

**25.** Wrth adolygu codio clinigol, canfûm fod amrywiaeth o wendidau yn y trefniadau a'r broses codio clinigol yn lleihau cywirdeb data codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd i raddau sylweddol, a bod yr ôl-groniad o gyfnodau gofal heb eu codio bellach ar gynnydd. Mae hynny er gwaethaf ffocws cryf ar wella amseroldeb gwybodaeth reoli.

**26.** Yn fy adolygiadau dilynol o:

- Theatrau Llawdriniaeth, canfûm fod theatrau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, a bod gwelliannau wedi'u sicrhau, yn enwedig o ran hyrwyddo mwy o ffocws ar ddiogelwch cleifion. Serch hynny, mae'r 'defnydd terfynol' yn parhau i fod yn isel, ac mae angen i theatrau a defnyddwyr theatrau gydweithredu er mwyn goresgyn rhwystrau.
- Staffio wardiau, gwelir bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da tuag at ddatblygu dull cyson a deallus o bennu lefelau staffio wardiau, fydd yn sicrhau cydymffurfio â chanllaw'r Prif Swyddog Nyrsio ar staffio wardiau.

**27.** Hoffwn gydnabod a diolch am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**28.** Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.

**29.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; ac
- **c)** fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

**30.** Mewn perthynas ag (c), yr wyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**31.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

**32.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**33.** Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

**34.** I gloi, yn Atodiad 34 nodir y risgiau sylweddol o ran archwilio ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**35.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol er mwyn dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.

**36.** Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm..

**37.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**38.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd y Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth fewnol; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2013-14. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, cyflwynais adroddiad sylweddol ar y broses ariannu a'r pwysau ariannol y mae'r Bwrdd yn ei wynebu ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**39.** Cynhyrchodd y Bwrdd Iechyd datganiadau ariannol o ansawdd da o fewn yr amserlen ofynnol ac a oedd, ar y cyfan, wedi'u cefnogi gan bapurau gwaith cadarn. Mae staff cyllid yn parhau i weithio'n dda gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon a'r broses o gwblhau a chytuno.

**40.** Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 40, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 4 Mehefin 2014. Ceir crynodeb yn Arddangosyn 1 o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Cafwyd camddatganiad o £401,000 i'r costau Gofal Iechyd Parhaus yn Nodyn 3.2. Gwneir iawn am y datganiad hwn yng ngwallau gorddatgan Nodyn 3.1 (Gofal Sylfaenol) a 3.3 (Gwasanaethau Clinigol). Gwall wrth ddosbarthu mathau o wariant yw hwn, felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y llinell waelod a adroddwyd yn y datganiadau ariannol.<br>• Achoswyd y gwall hwn yn sgil cam-bennu'r addasiadau cyfrifo wrth ôl-gofnodi croniadau 2012-13 ar gyfer Gwasanaethau Fferyllol, Cyffuriau a Chyfarpar ar Bresgripsiwn (Nodyn 3.1) a Chyflenwadau a Gwasanaethau Clinigol (Nodyn 3.3).<br>Nodyn 3.3 - Cafwyd gorddatganiad o £2.18 miliwn mewn Costau Lleihad. Byddai cywiro hyn yn golygu cynnydd cyfatebol mewn tanwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (DWNC) (er ei bod hi'n debygol y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno gostyngiad cyfatebol i'r Terfyn Adnoddau Refeniw).<br>• Eleni, mae Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru wedi egluro'r sefyllfa ynghylch sut i roi cyfrif am fynegeio yn erbyn unrhyw leihad blaenorol a gynhwyswyd yn y DWNC.<br>Yn ôl y canllawiau, dylid gosod mynegeio ar asedau unigol i ddechrau yn erbyn lleihad blaenorol ar yr ased hwnnw, cyn y gellir ei ddefnyddio i gynyddu'r gronfa ailbrisio. Er bod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y llinell waelod a adroddwyd, mae'n debygol y byddai unrhyw addasiad yn arwain at ostyngiad cyfatebol mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol, drwy leihau'r Terfyn Adnoddau Refeniw. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC) | Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed ariannol i dalu o leiaf 95 y cant o anfonebau a dderbynnir gan gredydwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod i'w derbyn. Dywed y Bwrdd Iechyd yn Nodyn 7.1 y datganiadau ariannol ei fod wedi cyflawni'r targed hwn, gan dalu 96.9 y cant o anfonebau gan gredydwyr nad ydynt y rhan o'r GIG o fewn yr amser penodedig.<br>Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r 'cloc ddechrau' pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn yr anfoneb gyntaf. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn dechrau'r cloc pan ddaw'r anfoneb i law'r adran Caffael i Dalu. Mae profion archwilio blaenorol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi enghreifftiau lle caiff yr anfoneb ei derbyn gan adrannau eraill, ond na chaiff ei stampio i ddangos ei bod wedi cael ei derbyn ar y dyddiad hwnnw. At hynny, yn ein profion archwilio o wariant ar Fferyllfeydd Ysbyty, amlygwyd bod y cloc yn dechrau pan fo'r anfoneb yn cael ei phasio i'r adran Caffael i Dalu yn hytrach na phan ddaw'r anfoneb i law'r Fferyllfa. Gan hynny, nid yw bob amser yn bosibl nodi'r union ddyddiad y caiff ei derbyn. Mae'n bosibl, felly, fod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi'i orddatgan yn hyn o beth.<br>Ar gyfer anfonebau y ceir anghydfod yn eu cylch, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y dylai'r cloc stopio pan nodir bod anghydfod ynghylch yr anfoneb ac yna ailddechrau pan gaiff yr anghydfod hwnnw ei ddatrys.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi gweithdrefnau ar waith eleni i nodi dyddiad dechrau a gorffen y cyfnod y ceir anghydfod yn ei gylch ar y system daliadau. Fodd bynnag, mae peth amheuaeth ynghylch a yw'r ffigurau a gofnodwyd yn Nodyn 7.1 wedi ystyried hyn yn gywir. Mae'n bosibl, felly, fod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi'i danddatgan yn hyn o beth. |
| Balansau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gyda darparwyr yn Lloegr | Ar y cyfan, canfuom for yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Pwyllgor yn glir a dibynadwy, a bod dyfarniadau rheoli yn rhesymol ac yn rhydd rhag unrhyw ragfarn. Fodd bynnag, cawsom rywfaint o anhawster wrth wirio dilysrwydd dyfarniadau rheoli mewn perthynas â'r Pwyllgor a rhai balansau y ceir anghydfod yn eu cylch â darparwyr gofal iechyd yn Lloegr. Nodwyd tri balans a oedd yn creu cyfanswm o £1.346 miliwn, a oedd wedi'u hepgor o'r datganiadau ariannol ar y sail nad yw'r Pwyllgor yn derbyn ei fod yn atebol amdanynt. Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno dadleuon cryf i gefnogi'r weithred hon (yn seiliedig yn bennaf ar y ffaith na ddilynwyd rheolau 'flex and freeze' Lloegr), ond y mae hefyd wedi cyflwyno llythyrau pendant gan y darparwyr sy'n mynnu y dylid talu'r symiau'n llawn. Ymddengys fod yr ymdriniaeth cyfrifo a ddewiswyd gan y Pwyllgor yn rhesymol, ond mae'n anodd i ni ffurfio barn ynglŷn â'r tebygolrwydd y telir unrhyw swm, a chan hynny rydym wedi casglu bod y balansau hyn yn cynrychioli ansicrwydd dibwys. Byddwn yn adolygu'r balansau y flwyddyn nesaf, ac yn gweithio gyda Chyfarwyddwr Cyllid a thîm y Pwyllgor er mwyn canfod dull y mae'r ddwy ochr yn fodlon ag ef o ymdrin â materion fel hyn yn y dyfodol. |

**41.** Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2014, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**42.** Mae fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd a ddelir mewn ymddiriedaeth wedi'i gwblhau. Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**43.** Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran rheoli ansawdd a threfniadau ar gyfer asesu profiadau cleifion/defnyddwyr;
- gwaith penodol ar y defnydd a wneir o adnoddau mewn perthynas â chodio clinigol; ac
- asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar theatrau llawdriniaeth a staffio wardiau ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.

**44.** Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf ar gyfer rheoli'r gyllideb, ac ar gyfer monitro ac adrodd yn ystod y flwyddyn

## Mae cyfeiriad y Bwrdd o ran trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn gadarnhaol, ond mae'r Bwrdd ar ei hôl hi o ran cyflawni arbedion, ac er mwyn llwyddo yn y dyfodol bydd angen mwy o gefnogaeth gan randdeiliaid allweddol

Ar y cyfan, bu'r Bwrdd Iechyd yn lled lwyddiannus wrth reoli ei gyllid yn 2013-14.
Arhosodd o fewn ei Derfyn Adnoddau Refeniw, ond roedd arno angen £3.9 miliwn dan froceriaeth gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny, gan nad oedd wedi sicrhau'r holl arbedion a gynlluniwyd ganddo

**45.** Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Cafwyd gwaith cadarn yn ystod y flwyddyn i fonitro cyllidebau.
- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd adroddiad cyson a thryloyw i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd o'i sefyllfa a'i heriau ariannol drwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gorwariant rhagamcanedig o £20.8 miliwn.
- Canfu'r Bwrdd Iechyd £19.7 miliwn o arbedion i ddechrau, ond gostyngwyd hyn i £15 miliwn hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, yr oedd wedi sicrhau £10.5 miliwn o arbedion, ac roedd mwyafrif yr arbedion hynny (£9.2 miliwn) yn rhai cylchol.
- Er fy mod yn cydnabod yr heriau wrth sicrhau arbedion (cynnydd yn y galw mewn rhai meysydd a diffyg hyblygrwydd o ran trefniadau cyflogi a diswyddo), gellid ystyried mai

- cymharol fach yw’r arbedion a sicrhawyd, am eu bod yn cynrychioli oddeutu 2.4 y cant o’r gwariant y gellir ei reoli’n flynyddol.
- Cafwyd trafodaethau manwl ac ymgynghoriad â deiliaid cyllideb, ond ni chafwyd cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer cyllidebau cychwynnol 2013-14.

Mae’r monitro a’r adrodd yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn gryf yn 2014-15, ond unwaith eto mae’r Bwrdd Iechyd ar ei hôl hi o ran ei gynlluniau i sicrhau arbedion ac effeithlonni, ac nid oedd holl gynlluniau arbed y cyfarwyddiaethau wedi’u cymeradwyo yn brydlon. Bydd ymgysylltu ynghynt a chefnogaeth y cyfarwyddiaethau a’r staff clinigol yn allweddol er mwyn llwyddo yn y dyfodol

**46.** Mae Deddf Cyllid Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae’n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol i fantoli’r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl, yn hytrach na phob blwyddyn unigol. Mae’r Ddeddf yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy’n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, haws ei reoli. Mae’n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy’n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae’r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi cynlluniau tymor canolig integredig digon cadarn, ac ar sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol i’r cynlluniau hynny gan Weinidogion Cymru.

**47.** Cafodd cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd, sy’n weithredol o 2014-15 i 2016-17 ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar 7 Mai 2014. O ganlyniad i hynny, mae gan y Bwrdd Iechyd yr hyblygrwydd ariannol i fantoli’r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd. Mae’r cynllun yn cynnwys cafeatau lle nad yw’r sefyllfaoedd yn hysbys ar hyn o bryd, ac mae’r sefyllfa wrth symud ymlaen yn parhau i fod yn heriol.

**48.** Dyma rai o’r canfyddiadau manylach a’m cynorthwyodd i ffurfio fy nghasgliad cyffredinol:

- Mae’r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn gadarn.
- Nodir £17.2 miliwn o arbedion ar gyfer 2014-15 yn y cynllun tair blynedd, sy’n cynnwys £7.2 miliwn gan y cyfarwyddiaethau a £10 miliwn o themâu trawsgyfarwyddiaethol.
- Tybiwyd yn y cynllun y byddai’r Bwrdd yn derbyn £8 miliwn o ’gyllid hyblygrwydd’ gan Lywodraeth Cymru yn 2014-15, ac mae bellach wedi sicrhau’r cyllid hwnnw.
- Roedd y cynllun wedi tybio y ceid £6 miliwn o arbedion yn sgil ’materion Cymru gyfan’, sef newidiadau i delerau ac amodau’r staff i raddau helaeth. Mae’r rhain yn annhebygol o gael eu gwireddu’n llwyr, er bod y Bwrdd Iechyd o’r gred y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu’r bwlch.
- Rhoddwyd proses gadarn ar waith er mwyn canfod arbedion, ond bydd angen i ddeiliaid cyllidebau a staff clinigol gefnogi’r broses honno er mwyn gwireddu arbedion. Yn 2014-15, ni chafodd cynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau eu cwblhau a’u cymeradwyo yn ddigon buan.

- Ym mis wyth, mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ei fod ar ei hôl hi o ran ei gynlluniau i sicrhau arbedion. Mae'n adrodd bod ganddo ddiffyg arbedion o £1.6 miliwn y bydd angen cymryd camau i'w unioni yn 2014-15 er mwyn i'r Bwrdd gyrraedd ei darged cynlluniedig i fantoli'r gyllideb, yn unol â'r hyn a bennwyd ganddo yn ei gynllun tair blynedd. Mae'r diffyg hwn a adroddwyd yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn nesáu at gyflawni ei gynlluniau, gan fod y 'bwlch arbedion' yn sylweddol uwch yn y misoedd blaenorol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau trefniadau llywodraethu ac yn cydnabod bod meysydd i'w datblygu ymhellach

**49.** Yn yr adran hon o'r adroddiad, ystyrir fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:

- cynllunio strategol;
- sicrwydd y bwrdd a rheolaethau mewnol;
- rheoli perfformiad; a
- chynnydd wrth ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd ac mae'r trefniadau cynllunio wedi parhau i aeddfedu yn ystod 2014, ac yn cael eu cryfhau ymhellach ar gyfer 2015

**50.** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd sy'n dwyn y teitl 'Gofal Cwm Taf'. Cynhelir sawl gweithgarwch rheoli er mwyn monitro a chraffu ar y cynllun a'r gwaith o'i gyflawni. Er enghraifft, er mwyn dynodi atebolrwydd clir, mae arweinwyr Gweithredol wedi cael eu pennu i fod yn gyfrifol am gyfarwyddiaethau unigol, a hefyd am themâu trawsgyfarwyddiaethol, sef rhaglenni arbed a weithredir drwy'r sefydliad. Cynhelir Cyfarfodydd Busnes Clinigol Misol o fewn pob cyfarwyddiaeth, a nodwedd allweddol y cyfarfodydd hyn yw adolygiad o'r cynllun integredig tair blynedd.

**51.** Mae dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio'n gorfforaethol yn parhau i ddatblygu. Mae'r Grŵp Cynllunio Integredig yn rhoi ffocws canolog ar gyfer datblygu a gwella trefniadau cynllunio. Cafodd templedi cynllun busnes eu datblygu'n ganolog i'w cwblhau gan y cyfarwyddiaethau, a dywedodd staff y bu fy nhîm yn cyfweld â hwy fod y templedi hynny o gymorth er mwyn cyflawni a chwblhau gwaith cynllunio eu cyfarwyddiaethau. Er mwyn asesu cyflawnder ac ansawdd cynlluniau, datblygwyd matrics aeddfedrwydd sydd yn fecanwaith defnyddiol er mwyn asesu cynllun busnes pob cyfarwyddiaeth.

**52.** Mae'r broses gyffredinol ar gyfer cynhyrchu cynlluniau busnes cyfarwyddiaethau a strategaethau arbed, ar draws y cyfarwyddiaethau ac ar gyfer cyfarwyddiaethau penodol, yn ymddangos yn gadarn, gyda rhai meysydd lle ceir arfer da. Cafodd targedau arbedion 2014-15 eu datblygu drwy ddefnyddio dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, nid oedd arbedion cychwynol y cyfarwyddiaethau'n ddigonol er mwyn cyrraedd targed y sefydliad. Canfu'r cyfarwyddiaethau £5 miliwn o arbedion i ddechrau, ond cafodd y rhain eu hadolygu a'u herio'n ganolog, ac roedd angen i'r cyfarwyddiaethau ganfod £2.2 miliwn o dargedau arbed yn ychwanegol at hynny. Roedd yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr cyfrifol

gymeradwyo cynlluniau'r Cyfarwyddiaethau, ac ystyriwyd y cynlluniau hynny mewn saith cam, fel yr amlinellir yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cyfnodau cynllunio allweddol

| Camau Cynllunio a gyflawnwyd gan y cyfarwyddiaethau |
|---|
| Nodi'r blaenoriaethau allweddol a'r newidiadau i wasanaethau yn 2014-15 |
| Cynnal Asesiad Effaith Ansawdd ar gyfer y cynllun |
| Datblygu cynlluniau ar gyfer Gwariant Cyfalaf |
| Datblygu cynlluniau'r gweithlu |
| Datblygu cynlluniau ar gyfer y Galw a'r Capasiti |
| Datblygu cynlluniau arbed manwl a chynnal asesiad o'r tebygolrwydd o'u cyflawni |
| Y Cyfarwyddwr i gytuno ar y cynllun a'i gymeradwyo, a dyrannu'r gyllideb |

**53.** Er bod gan y Bwrdd drefniadau corfforaethol ar waith, ni chwblhawyd cynlluniau pob cyfarwyddiaeth yn brydlon. Yn ogystal â hyn, cytunwyd ar rai cynlluniau cyfarwyddiaeth yn amodol ar gymeradwyo sawl ffactor, megis cymeradwyaeth i recriwtio arbenigwyr ychwanegol ac ail-fuddsoddi'r arbedion yn y gwasanaeth yn hytrach na gostwng y gyllideb. Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu i gymeradwyo cynlluniau busnes yr holl gyfarwyddiaethau cyn diwedd blwyddyn ariannol 2015-16. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod y rhaglenni arbed trawsgyfarwyddiaethol, oherwydd eu natur, yn peryglu'r gallu i gyflawni. Yn ogystal â hyn, gallai diffyg perchnogaeth ehangach a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyfarwyddiaethau lesteirio cyflawniad.

**54.** During 2014-15 workforce planning improved and the Health Board recognises that this improvement was from a low base and acknowledges this as an area that needs to be strengthened. Cynhaliodd fy nhîm gyfweliad â staff a roddodd enghreifftiau lle cafwyd gwelliant o ran cynllunio'r gweithlu, sef: integreiddio cynllunio'r gweithlu â newidiadau i wasanaethau yn Dewi Sant, ac roedd y cymorth a gafwyd gan yr adran Adnoddau Dynol (AD) hefyd o gymorth i sicrhau gwelliannau wrth gynllunio'r gweithlu.

**55.** Mae'n gadarnhaol nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau adnewyddu ei gynllun integredig tair blynedd, ac wedi mabwysiadu dull rhagweithiol er mwyn datblygu ei fframwaith lleol cyn dyfodiad Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2015-16. Mae'r fframwaith rheoli perfformiad hefyd yn cael ei adnewyddu er mwyn sicrhau mwy o eglurder yn gysylltiedig â gofynion cynllunio a chyfrifoldebau'r staff gan gynnwys cymeradwyo. I gydnabod y cymorth y mae ar y cyfarwyddiaethau ei angen i adnewyddu cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth, mae swyddogion AD a chyllid wedi cael eu dyrannu i'r cyfarwyddiaethau.

## Ar y cyfan, mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i esblygu, ond mae angen gwella rhai trefniadau ymhellach

**56.** Mae gweinyddiaeth y Bwrdd yn gwella, a dylai mwy o gapasiti corfforaethol gryfhau'r trefniadau ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroi i adolygu a cheisio cryfhau ei drefniadau sicrwydd. Er enghraifft, roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei ddatblygu ymhellach yng nghyfarfod ei Fwrdd Datblygu ym mis Rhagfyr 2014 yn unol ag adolygiad o aelodaeth pwyllgorau ac arfarniadau Aelodau Annibynnol.
Mae arddull tŷ diwygiedig, sy'n cynnwys trefniadau adrodd pwyllgorau a thempledi adrodd, wedi cael ei fabwysiadu a'r gofrestr risg gorfforaethol wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar.

**57.** Nodwyd yn arsylwadau fy nhîm fod cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio'n dda, bod Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi cefnogaeth dda a bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn awyrgylch agored. Mae portffolio Ysgrifennydd y Bwrdd/y Cyfarwyddwr Gwasanaethau a Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei adolygu, a sawl swyddogaeth weithredol wedi'u hailddyrannu'n briodol i gyfarwyddwyr gweithredol eraill, fel addysg a dysgu i Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Trefniadol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y problemau capasiti yn y seilwaith corfforaethol, ac mae ganddo drefniadau ar waith i ymdrin â hyn erbyn diwedd 2014.

**58.** Mae ansawdd yr adroddiadau pwyllgor yn rhesymol ac wedi gwella rhywfaint, ond mae angen gwneud mwy i ddangos yr effaith ar berfformiad, ansawdd a chyllid, a symud tuag at ddull o adrodd sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Yn fwy cyffredinol, roedd agendâu pwyllgor wedi'u trefnu'n dda fel arfer, ond gall cyfarfodydd pwyllgor fod yn hir ar adegau, gan olygu bod eitemau ar ddiwedd yr agenda weithiau'n cael eu trafod ar frys. Er bod papurau pwyllgor fel arfer ar gael bum niwrnod gwaith cyn cyfarfodydd pwyllgor, nid oedd hyn yn wir bob tro. Mae'r amserlen pum niwrnod hefyd yn llai na'r hyn a nodir yn y rheolau sefydlog[1].

**59.** O arsylwi cyfarfodydd pwyllgor, canfu fy nhîm fod lefel y craffu a'r herio yn briodol ar y cyfan. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw gyda threfniadau craffu cryf a lefel briodol o her; mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i sefydlu'n dda ac yn cael ei gynnal yn effeithiol; ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn goruchwylio'r holl is-bwyllgorau.

**60.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod papurau pwyllgor ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae problemau gyda chapasiti corfforaethol wedi amharu ar gynnydd gyda hyn. Mae gan y Bwrdd Iechyd wefan ddiogel i'r aelodau, ond nid yw diben y wefan yn eglur, ac nid yw'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o bapurau ar gyfer pob is-bwyllgor.
Ar hyn o bryd, nid yw Aelodau Annibynnol yn gallu defnyddio'r wefan ddiogel hon i gyrchu papurau pwyllgor os nad ydynt yn aelod o'r pwyllgor neilltuol hwnnw.

---

[1] *Model Standing Orders Reservation and Delegation of Powers for Local Health Boards* (Saesneg yn unig), Llywodraeth Cymru, Mehefin 2014.

**61.** Mae’r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei strwythurau llywodraethu ar hyn o bryd, ac mae angen ymdrin â rhai gwendidau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr amgylchedd allanol newidiol ac yn addasu strwythur ei bwyllgorau yn unol â hynny. Er enghraifft, ffurfiodd Bwyllgor Gofal Sylfaenol yn ddiweddar er mwyn cyflawni rôl ganolog i ddatblygu, gweithredu, monitro a chraffu ar y strategaeth gofal sylfaenol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu peidio â chael pwyllgor ar wahân i ymdrin â datblygu’r gweithlu a datblygu trefniadol. Yn lle hynny, mae’n ceisio ymwreiddio’r gweithgareddau hyn ar draws y strwythur pwyllgorau ehangach, ac mae’r cyfarwyddwr perthnasol yn aelod o bwyllgorau allweddol.

**62.** Mae cylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau wedi cael eu hadolygu, neu yn cael eu hadolygu, yn rhan o’r adolygiad cyffredinol o strwythurau llywodraethu. Mae’r rhan fwyaf o’r cylchoedd gorchwyl yn cynnwys gofyniad i gynnal hunanasesiad a gwerthusiad rheolaidd a thrwyadl o berfformiad a gweithrediad y pwyllgor bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnwys gofyniad i gynnal hunanasesiad. Dim ond un pwyllgor a gynhaliodd hunanasesiad mewn gwirionedd yn 2014. Dyma wendid yn y trefniadau sicrwydd, gan fod hunanasesiadau, o’u cynnal yn drwyadl, yn weithgaredd pwysig a all roi sicrwydd bod pwyllgor yn gweithredu mewn modd effeithiol. Gallant hefyd fod yn ffordd o rannu arfer da ar draws y strwythur pwyllgorau ehangach. Gellid cyflwyno gwelliannau drwy:

- sicrhau bod cylchoedd gorchwyl yr holl bwyllgorau a’r is-grwpiau’n cynnwys gofyniad penodol i gynnal hunanasesiad;
- cadarnhau mynychder ac amseriad hunanasesiadau; a
- nodi’r mecanweithiau adrodd ar gyfer hunanasesiadau.

**63.** Nodwyd yn fy ngwaith yn 2013 y dylai’r Bwrdd Iechyd adolygu swyddogaeth ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwelliannau i strwythur a phroses y pwyllgor hwn, er enghraifft cynllunio’r agenda yn well er mwyn cadarnhau pa eitemau sydd er sicrwydd, er trafodaeth a chraffu neu er gwybodaeth. Yn ogystal â hyn, bwriedir cynnal dau gyfarfod ychwanegol yn ystod y flwyddyn i drafod adroddiadau blynyddol ar ansawdd. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi llunio Strategaeth Ansawdd a chynllun cyflawni cysylltiedig, yn ogystal â Chynllun Profiad y Claf. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i nifer o’n sylwadau ynghylch Datganiad Ansawdd Blynyddol y llynedd, ond mae lle i wella eto.

**64.** Mae llwyth gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i fod yn feichus er bod mwy o waith yn cael ei ddirprwyo i’w is-bwyllgorau. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen gwelliannau pellach, ac wedi nodi’r cam nesaf o ddatblygiadau allweddol, sy’n cynnwys sefydlu is-grŵp gwybodeg glinigol, datblygu dangosfyrddau tîm lleol gyda dangosyddion ansawdd a chryfhau adroddiadau eithrio yn sail ar gyfer cofrestr risg y sefydliad.

**65.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar gyfer rheolaeth fewnol, ond gellid gwella rhai o’r trefniadau. Mae ganddo drefniadau cadarn a digonol ar gyfer archwilio mewnol ac atal twyll yn lleol. Gellid cyflwyno gwelliannau pellach i’r rheolaethau mewnol yng nghyswllt y canlynol:

- gwella dogfennau a threfniadau cofnodi yn gysylltiedig â datgan rhoddion a lletygarwch; a
- chryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll o fewn gofal sylfaenol.

**66.** Yn rhan o'm hymrwymiad i gynorthwyo i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'r rhaglen leol, a'r rhaglen orfodol genedlaethol o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014. Drwy'r gwaith hwn, canfuwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd yn olrhain argymhellion archwilio hyd yn ddiweddar. Ym mis Hydref 2014, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ei adroddiad olrhain cyntaf yn gysylltiedig ag argymhellion archwilio mewnol a wnaed yn 2014. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio hefyd i ehangu'r ymagwedd i gynnwys argymhellion archwilio allanol.
Gallai'r Bwrdd Iechyd ehangu'r ymagwedd olrhain ymhellach i gynnwys argymhellion gan reoleiddwyr eraill. Yn sgil gwaith gan fy nhîm i fynd ar drywydd adroddiadau blaenorol, canfuwyd bod y Bwrdd wedi ymateb i lawer o argymhellion, er nad oes ganddo broses systematig ar gyfer monitro ac olrhain. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r sefydliad yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson, er mwyn iddo fod yn sicr ei fod yn ymateb i argymhellion archwilio.

## Mae trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i ddatblygu, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau wrth fodloni targedau perfformiad allweddol

**67.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd integredig ar gyfer perfformiad, sy'n cael ei fireinio'n barhaus, ac sy'n parhau i ehangu cwmpas mesurau perfformiad. Er hynny, mae angen datblygu mwy ar feysydd allweddol, fel gofal sylfaenol a mesurau canlyniadau comisiynu. Rhoddir adroddiad misol ar y dangosfwrdd i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a phob deufis i'r Bwrdd. Ar y cyfan, mae'n cynnwys gwybodaeth gyd-destunol/gefndirol dda am berfformiad, ac yn nodi cyfarwyddwyr gweithredol arweiniol a chamau ar gyfer gwella.

**68.** Mae pob adroddiad ar y dangosfwrdd yn cynnwys 'Cipolwg ar BIP Cwm Taf', sef tabl dwy dudalen o hyd ac arni wybodaeth am dargedau, gwir berfformiad yn ystod y mis ac yn y flwyddyn hyd yma, gan gymharu â'r un cyfnod y llynedd
Mae'r wybodaeth hefyd wedi'i godio â lliw i ddangos a yw perfformiad yn cyrraedd y targedau. Mae rhai mesurau perfformiad hefyd wedi'u codio â lliw i adlewyrchu'r disgwyliadau a ragwelir ar gyfer y mis canlynol. Mewn adroddiadau rhagarweiniol i bwyllgorau, nodir mesurau newydd a ychwanegwyd ers yr adroddiad diwethaf, eithriadau allweddol o ran perfformiad ac unrhyw feysydd sydd wedi'u huwchgyfeirio. Gallai gwelliannau pellach gynnwys ymdriniaeth â pherfformiad yn erbyn rhaglenni trefniadol allweddol a monitro yn erbyn cerrig milltir allweddol yn y cynllun tymor canolig integredig.

**69.** Ceir arwyddion bod perfformiad mewn rhai meysydd yn gwella, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda â rhai Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, o edrych ar y darlun cyffredinol, mae angen gwneud mwy i wella perfformiad yn erbyn rhai targedau cenedlaethol allweddol.

### Cafwyd cynnydd cyson gyda llawer o argymhellion y llynedd, ond mae angen cymryd camau pellach yng nghyswllt rhai ohonynt

**70.** Yn fy ngwaith yn 2013, tynnwyd sylw at yr angen i gryfhau rhai agweddau ar sicrwydd a rheolaeth fewnol y bwrdd, casglu adborth a dysgu yn ei sgil, a rheoli diogelwch ac ansawdd. Yn fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2014, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cyson ar y cyfan, ond bod angen gweithredu o hyd yng nghyswllt rhai agweddau, fel cyhoeddi papurau pwyllgor.

## Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli adnoddau yn bodloni anghenion gweithredol arferol ar y cyfan. Serch hynny, mae angen gwella mwy ar ysgogiadau allweddol er mwyn cefnogi cyflawni'r cynllun tymor canolig integredig

**71.** Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Gwelwyd o'r gwaith hwn fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n bodloni anghenion gweithredol arferol ar y cyfan, ond bod angen gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod galluogwyr allweddol yn cefnogi cyflawni'r cynllun tymor canolig integredig. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Asesiad Strwythuredig - ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Rheoli newid | Mae rheoli newid wedi'i integreiddio i swyddogaethau rheoli gweithredol, ac fe geir rhai enghreifftiau o gyflawni'n llwyddiannus, ee prosiect Llif ac ailfodelu gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd a yw'r dull o reoli newid yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y sefydliad. Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau, ac asesir y maes hwn yn 2015. |
| Cynllunio'r gweithlu | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gynllunio'r gweithlu, a bod y man cychwyn yn isel. Mae camau penodol yn cael eu cymryd i ymdrin ag absenoldeb salwch, a hefyd i gydymffurfio ag Adolygiadau Datblygu Perfformiad. Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau, ac asesir y maes hwn yn 2015. |
| Ystadau ac asedau, Gwaith partneriaeth. Ymgysylltu â chleifion a dinasyddion a'r defnydd o dechnoleg. | Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig yn parhau, ac asesir y maes hwn yn 2015. |

## Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn sawl maes penodol

**72.** Yn ystod 2014, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd ar y defnydd o adnoddau yn y meysydd penodol a ganlyn:

- Y drefn ar gyfer codio clinigol;
- Adolygiad dilynol o Theatrau Llawdriniaeth; ac
- Adolygiad Dilynol o Drefniadau Staffio Wardiau.

**73.** Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r adolygiadau hyn yn yr adrannau a ganlyn.

### Er bod ffocws cadarn wedi bod ar wella prydlondeb rheoli gwybodaeth, mae amrywiaeth o wendidau yn y trefniadau a'r broses godio glinigol yn lleihau cywirdeb data clinigol wedi'i godio yn sylweddol o fewn y Bwrdd Iechyd, ac mae ôl-groniadau o gyfnodau gofal nad ydynt wedi'u codio bellach ar gynnydd

**74.** Mae codio data cleifion yn glinigol yn sail ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan gyrff y GIG i reoli eu busnes, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, a bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd uchel. Yn ystod 2013, cynhaliodd fy nhîm adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynhyrchu gwaith codio clinigol amserol a manwl gywir. Cwblhawyd y gwaith ar y cyd â chydweithwyr o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**75.** Er gwaethaf y ffocws cadarn ar wella prydlondeb gwybodaeth reoli, canfu'r adolygiad fod amrywiaeth o wendidau yn y trefniadau a'r broses godio clinigol yn lleihau cywirdeb data clinigol wedi'i godio yn sylweddol o fewn y Bwrdd Iechyd, ac mae ôl-groniadau o gyfnodau gofal nad ydynt wedi'u codio bellach ar gynnydd.
Dyma'r rheswm dros ein casgliad:

- rhoddir proffil uchel i godio clinigol ar lefel Bwrdd, ond mae angen buddsoddi mwy mewn codio a chanolbwyntio mwy ar ansawdd a chywirdeb;
- mae cofnodion meddygol o ansawdd gwael, agweddau ar reolaeth y staff a diffyg prosesau archwilio ac ymgysylltu clinigol yn lleihau ansawdd codio clinigol; ac
- mae data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol, ac yr oedd yn bodloni safonau Llywodraeth Cymru yn 2012-13. Fodd bynnag, mae ôl-groniadau o gyfnodau heb eu codio ar gynnydd, ac fe geir problemau sylweddol yn gysylltiedig â chywirdeb y codio - mae angen rhoi gwybodaeth glir i'r Bwrdd ynghylch goblygiadau hyn.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad dilynol yn dangos bod pethau wedi gwella a bod y Bwrdd wedi ymateb i'm hargymhellion gwreiddiol

**76.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cyflawni gwaith archwilio dilynol manwl er mwyn asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin â phryderon ac argymhellion a godai o waith archwilio blaenorol mewn meysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
| --- | --- |
| Adolygiad Dilynol o Theatrau Llawdriniaeth<br>Chwefror 2014 | Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol, ac yn cyflenwi gwasanaethau theatr effeithlon o ansawdd uchel?<br>Casgliad cyffredinol: Mae theatrau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r Bwrdd wedi sicrhau gwelliannau, yn enwedig o ran hybu mwy o ffocws ar ddiogelwch cleifion. Serch hynny, mae'r defnydd terfynol yn parhau i fod yn isel, ac mae angen i theatrau a defnyddwyr theatrau gydweithredu er mwyn goresgyn rhwystrau.<br>Rhan 1: Mae gwella theatrau wedi parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd.<br>Rhan 2: Ceir rhai agweddau cadarnhaol iawn ar y diwylliant diogelwch, ac y mae brwdfrydedd mewn theatrau i gymryd y camau nesaf i brif-ffrydio'r defnydd o sesiynau briffio a'r rhestr wirio.<br>Rhan 3: Roedd 'defnydd terfynol' theatrau yn gymharol isel yn 2011, ac ychydig sydd wedi newid ers hynny.<br>Rhan 4: Ceir rhwystrau o hyd nad ydynt wedi'u cyfyngu i theatrau, ond sy'n gysylltiedig â rhannau amrywiol o lwybr meddygol y claf. |
| Adolygiad Dilynol o Drefniadau Staffio Wardiau<br>Medi 2014 | Mae ein gwaith dilynol yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ymagwedd gyson a deallus at bennu lefelau staffio wardiau. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau cydymffurfio â chanllawiau'r Prif Swyddog Nyrsio ar staffio wardiau. Mae hyn oherwydd:<br>• bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da i ddatblygu ymagwedd fwy cyson at staffio wardiau;<br>• y bydd canllawiau'r Prif Swyddog Nyrsio ar y gymysgedd o raddau a chleifion yn cael eu bodloni cyn gynted ag y bo swyddi gwag wedi'u llenwi;<br>• bod gwybodaeth reoli arferol bellach ar gael yn gyson;<br>• bod y lefel staffio sefydledig ar gyfer pob ward wedi'i chyflenwi gan lwfans banc, ac mae'r system e-amserlennu o gymorth i reoli absenoldebau;<br>• bod lefelau staffio sefydledig y wardiau wedi'u diwygio a'u cytuno; a<br>• bod disgwyl bellach i reolwyr wardiau reoli o fewn eu cyllidebau a'u lwfansau. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2014 |
| Adroddiad gan Archwiliwr Annibynnol ar Gyllid a Ddelir Mewn Ymddiriedaeth | Rhagfyr 2014 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Godio Clinigol | Ionawr 2014 |
| Adolygiad Dilynol o Theatrau Llawdriniaeth | Chwefror 2014 |
| Adolygiad Dilynol o Drefniadau Staffio Wardiau | Medi 2014 |
| Asesiad Strwythuredig 2014 | Rhagfyr 2014 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o'r Gwaith Archwilio ar gyfer 2014 | Mai 2014 |

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Amcan o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Adroddiad ar Wasanaethau Orthopedeg Cymru Gyfan | Mawrth 2015 |
| Adolygiad Diagnostig TGCh | Chwefror 2015 |
| Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal | Chwefror 2015 |
| Anomaleddau mewn Rhestrau Aros | Mawrth 2015 |
| Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau | Mai 2015 |
| Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol | Mehefin/Gorffennaf 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Yn Amlinelliad o Waith Archwilio 2014, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £417,280 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r ffi wirioneddol ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â’r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad. Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â’r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i’r Bwrdd Iechyd drwy’r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi’u cynnwys yn y ffi a nodir uchod.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio sylweddol

Yn fy Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014, nodwyd y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2014.

Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. | Dyma'r hyn a wnaeth fy nhîm:<br>• profi deunydd a dyddlyfrau eraill;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifo; a<br>• nodi unrhyw drafodion anarferol o bwys (a phrofi unrhyw drafodion felly).<br>Casglais nad oedd y rheolwyr wedi diystyru'r rheolaethau o fewn y systemau, mewn unrhyw agwedd o bwys. |
| Ceir risg gynhenid o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg sylweddol (ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnder yr incwm. | Ystyriai fy archwiliad y risg nad oedd yr incwm yn gyflawn.<br>Cafwyd sicrwydd o'r rheolaethau o fewn y systemau Cyllid a'r systemau eraill i liniaru'r risg hon.<br>Casgliad y gwaith archwilio hwn oedd bod yr incwm a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol yn gyflawn, ym mhob agwedd o bwys. |
| Ceir risg sylweddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei derfyn adnoddau refeniw. Dangosai'r sefyllfa ym mis 9 ddiffyg yn y flwyddyn hyd hynny o £5.2 miliwn. Os eir heibio i'r terfyn adnoddau, byddaf yn gosod amodau'n gysylltiedig â'm barn ynghylch rheoleidd-dra ac yn cyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol yn egluro'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw.<br>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y corff yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni'r terfyn adnoddau. | Wrth gynnal ei brofion, bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar rannau o'r datganiadau ariannol a allai ddangos tuedd wrth adrodd. | Asesodd fy nhîm ddyfarniadau ac amcangyfrifon rheoli.<br>Deuthum i'r casgliad bod y rhain yn gywir ym mhob agwedd o bwys. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio a gynigiwyd | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol yng nghyswllt ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Mae diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amserau talu credydwyr ac effeithio ar berfformiad PTSC.<br>Yn ogystal â hyn, rydym wedi adrodd mewn blynyddoedd cynt nad oedd modd i ni wirio cywirdeb y ffigurau a ddyfynnwyd ar gyfer PTSC yn y datganiadau ariannol gan nad yw'r holl anfonebau'n cael eu stampio wrth i'r Bwrdd Iechyd eu derbyn. Mae hi felly'n amhosib dweud a fodlonwyd y targed talu o 30 diwrnod. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r PTSC gan gadw mewn cof y pwysau ar y Bwrdd Iechyd o ran arian parod, ac yn cyfarfod â swyddogion y Bwrdd Iechyd i drafod y broses ar gyfer cofnodi ac adrodd yn 2013-14. | Oherwydd y problemau parhaus yn sgil peidio stampio'r holl anfonebau wrth eu derbyn, nid oedd modd i ni wirio perfformiad yn erbyn targed PTSC. Adroddwyd hyn yn ein Hadroddiad ar y Datganiadau Ariannol. |
| Ceir risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi cyfrif cywir am yr anghydfod cyfreithiol sy'n parhau ag un o'i gontractwyr ym mhrosiect adeiladu Ysbyty Cwm Rhondda. Yn y blynyddoedd cynt, mae'r hawliad wedi cael ei rannu rhwng darpariaethau ac atebolrwydd wrth gefn ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd ac amcangyfrif cyfrifo. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod yr ymdriniaeth cyfrifo a'r cyngor cyfreithiol diweddaraf â'r Bwrdd Iechyd, ac yn asesu a yw'r amcangyfrif yn rhesymol. | Ar ôl edrych ar y dogfennau sydd ar gael a'r cyngor cyfreithiol diweddaraf, rydym wedi casglu bod yr amcangyfrif ar gyfer y ddarpariaeth a'r atebolrwydd wrth gefn yn gywir ym mhob agwedd o bwys. |
| Ceir risg y gallai'r ddarpariaeth a'r croniadau ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP) fod wedi'u cam-ddatgan neu'n annibynadwy. Adroddwyd gennym y llynedd fod y Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar y data a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Powys ar gyfer hawliadau GIP hŷn. Yn y gorffennol, rydym wedi adrodd am wallau yn y data hwn y mae'r amcangyfrif o'r ddarpariaeth yn seiliedig arno. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried y fethodoleg cyfrifo ac yn profi'r data y mae'r amcangyfrif yn seiliedig arno er mwyn casglu a yw'r amcangyfrif yn rhesymol ai peidio. | Profodd fy nhîm y croniad a'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau GIP, ac er y canfuwyd gwallau o hyd yn y gronfa ddata a weinyddir gan Fwrdd Iechyd Powys, ni fyddai'r rhain wedi cael rhyw lawer o effaith ar y ffigurau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk